

Y Pwyllgor Gwybodaeth a Dealltwriaeth

25 Ebrill 2018, 14:00 – 15:15
Yr Ystafell Gynadledda, Aberystwyth

Agenda

Adran 1: Materion rhagarweiniol

- 1.1 Ymddiheuriadau
- 1.2 Datgan buddiannau
- 1.3 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2017
- 1.4 Materion yn codi

Adran 2: Materion ‘byw’ a materion sy’n gofyn am benderfyniadau

- 2.1 **Y gynhadledd Gorffennol Digidol:** Trafodaeth am bwysigrwydd strategol a manteision y gynhadledd Gorffennol Digidol, yn erbyn yr adnoddau sydd eu hangen i drefnu digwyddiad blynyddol. Amlinellir pedwar dewis ar gyfer y digwyddiad yn y dyfodol, a gofynnir i’r Comisiynwyr roi cyngor ar y dewis sydd yn eu barn hwy yn fwyaf priodol.

Adran 3: Gwybodaeth a diweddariadau

- 3.1 **Yr archif, gan gynnwys y casgliad o awyrluniau:** Adroddiad ar archif Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.
- 3.2 **CHERISH:** Adroddiad ar gynnydd y prosiect hwn, wedi’i ariannu gan yr UE, i astudio effeithiau newid hinsawdd ar dreftadaeth arfordirol Cymru ac Iwerddon.
- 3.3 **Ffotograffiaeth o’r awyr:** Adroddiad ar y gwaith tynnu awyrluniau a wnaed yn ystod y chwe mis diwethaf.
- 3.4 **Y prosiect Llongau-U:** Adroddiad ar gynnydd y prosiect hwn, wedi’i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, i goffáu’r rhyfel ar y môr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.
- 3.5 **Strategaeth arforol:** Adroddiad ar y cyngor a roddwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru a Cadw ar reoli datblygiadau alltraeth, ac ar drwyddedu morol.
- 3.6 **Teithwyr Ewropeaidd i Gymru:** Adroddiad ar gynnydd y prosiect hwn (bellach ar ben), wedi’i ariannu gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a’r Dyniaethau, i ddefnyddio

disgrifiadau yn Ffrangeg ac Almaeneg o deithiau drwy Gymru yn y 18fed a'r 19eg ganrif i greu teithiau seiliedig ar fapiau ar themâu penodol ar hyd a lled Cymru.

- 3.7 Addoldai hanesyddol:** Adroddiad ar gynnydd y gwaith a wnaed ar leoedd addoli.
- 3.8 Dendrocronoleg Brycheiniog:** Adroddiad ar gynnydd y gwaith dyddio blwyddgylch sy'n cael ei wneud mewn partneriaeth â Chymdeithas Brycheiniog.
- 3.9 Llechi Cymru:** Adroddiad ar gynnydd cyfraniad y Comisiwn Brenhinol i gais Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru.
- 3.10 Risg:** Adroddiad ar risgiau gweithredol Gwybodaeth a Dealltwriaeth.

Adran 4: Materion cloi

- 4.1 Unrhyw fater arall